



Nant Gwrtheyrn

Pecyn Croeso Preswyl


Residential Welcome Pack



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Nant Gwrtheyrn



CRFESO



Diolch yn fawr iawn am gofrestru ar gyfer cwrs gyda ni yn Nant Gwrtheyrn.

Thank you very much for registering for a course with us at Nant Gwrtheyrn.

Pwrpas y pecyn hwn yw hwyluso eich arhosiad gyda ni a gofynnwn i chi ei ddarllen cyn i chi gyrraedd y Nant.

To ensure a pleasant stay, please read this information booklet prior to your arrival.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni:

If you have any questions, please contact us:

Ffôn: 01758 750334 / Opsiwn 3
E-bost:
addysg@nantgwrtheyrn.org

Tel: 01758 750334 / Option 3
Email:
addysg@nantgwrtheyrn.org



SUT I GYRRAEDD / HOW TO ARRIVE

GWYBODAETH GYFFREDINOL - GENERAL INFORMATION

Cod post: LL53 6NL

Mae Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn wedi ei lleoli ar Benrhyn Llŷn ger pentref Llithfaen. Mae'n eithaf anodd ein cyrraedd drwy drafnidiaeth gyhoeddus yn unig. Mae'r gorsafoedd trên agosaf ym Mhwlheli a Bangor. Mae bysiau ar gael o Fangor i Bwlheli, ac o Bwlheli i Llithfaen. Fodd bynnag, sylwch fod yna daith dwy filltir o Lithfaen i Nant Gwrtheyrn.

O Borthmadog...

Dilynwch yr A497 tuag at Gricieth. Gyrrwch trwy Gricieth a pharhau heibio pentref Llanystumdwy. Ar ôl mynd heibio Llanystumdwy, trowch i'r dde oddi ar yr A497 tuag at Chwilog (B4354). Dilynwch y ffordd hon nes cyrraedd pentref Y Ffôr, yna trowch i'r dde ar y groesffordd i gyfeiriad Llanaelhaearn (A499). Wrth y gylchfan, wrth i chi adael Llanaelhaearn, trowch i'r chwith tuag at Nefyn (B4417), gan ddilyn yr arwyddion brown i Nant Gwrtheyrn.

Ar ôl cyrraedd pentref Llithfaen, trowch i'r dde ar y groesffordd a pharhau i fyny'r allt. Dilynwch y ffordd hon am tua 2 filltir, gan fynd heibio maes parcio ar y chwith a pharhau i lawr i'r dyffryn. Mae maes parcio ar gael ar y safle.

O Gaernarfon...

Dilynwch yr A499 i gyfeiriad Pwlheli. Ar y gylchfan cyn Llanaelhaearn, trowch oddi ar yr A499 i gyfeiriad Nefyn (B4417), gan ddilyn yr arwyddion brown am Nant Gwrtheyrn.

Dilynwch y cyfarwyddiadau uchod o Lithfaen.

Post code: LL53 6NL

Nant Gwrtheyrn Language Centre is situated on the Llŷn Peninsula, close to the village of Llithfaen. Accessing the centre via public transport can be challenging. The nearest train stations are in Pwlheli and Bangor. Buses are available from Bangor to Pwlheli, and from Pwlheli to Llithfaen. However, please note that there is a two-mile walk from Llithfaen to Nant Gwrtheyrn.

From Porthmadog...

Follow the A497 towards Criccieth. Drive through Criccieth and continue past the village of Llanystumdwy. After passing Llanystumdwy, turn right off the A497 towards Chwilog (B4354). Follow this road until you reach the village of Y Ffôr, then turn right at the crossroads towards Llanaelhaearn (A499). At the roundabout, as you leave Llanaelhaearn, turn left towards Nefyn (B4417), following the brown signs to Nant Gwrtheyrn.

Upon reaching the village of Llithfaen, turn right at the crossroads and continue up the hill. Follow this road for about 2 miles, passing a car park on your left and continuing down to the valley. There is a car park available on-site.

From Caernarfon...

Follow the A499 towards Pwlheli. At the roundabout before Llanaelhaearn, turn off the A499 towards Nefyn (B4417), following the brown signs for Nant Gwrtheyrn.

Proceed as above from Llithfaen.

Tŷ Canol a Sgubor

Trem y Môr / Seaview Terrace

Trem y Mynydd / Mountainview Terrace

Y Plas

Y Neuadd / The Hall

Y Swyddfa a'r Dderbynfa / The Office & Reception

Capel / Chapel

Cae Canol

Caffi Meinir



DYDD LLUN / MONDAY

AMSERLEN Y CWRS - COURSE TIMETABLE

09:00-
09:30

Cyrraedd a Chofrestru / Arriving and Registering

Bydd angen i chi gyrraedd Nant Gwrtheyrn rhwng 9:00 a 9:30 fore Llun. Os ydych yn aros, ewch i'r dderbynfa ar ôl cyrraedd, a bydd aelod o staff yn mynd â chi i'ch ystafell.

You should plan to arrive at Nant Gwrtheyrn between 9:00 and 9:30 on Monday morning. If you are staying, please go to the reception upon arrival, and a member of staff will show you to your room.

09:45

Cyfarfod Croeso / Welcome Meeting

Bydd y Cyfarfod Croeso yn cael ei gynnal yn y Neuadd neu'r Caffi, lle byddwch yn derbyn gwybodaeth am y safle, trefniadau'r wythnos, a'n systemau iechyd a diogelwch.

The Welcome Meeting will take place in the Hall or Café, where you'll receive information about the site, the week's arrangements, and our health and safety procedures.

10:00 - 11:30 Gwers / Lesson

11:30 - 12:00 Paned / Cuppa

12:00 - 13:00 Gwers / Lesson

13:00 - 14:00 Cinio / Lunch

14:00 - 15:30 Gwers / Lesson

15:30 - 16:00 Paned / Cuppa

16:00 - 17:00 Gwers / Lesson

18:00

Swper / Evening meal

Bydd swper yn cael ei weini yn y Neuadd neu'r Caffi. Rhowch wybod i ni am unrhyw anghenion dietegol ymlaen llaw.

The evening meal is served in the Hall or Café. Please inform us of any dietary requirements in advance.



DYDD MAWRTH / TUESDAY

AMSERLEN Y CWRS - COURSE TIMETABLE

08:30 Brecwast / Breakfast

09:30-11:00 Gwers / Lesson

11:00 - 11:30 Paned / Cuppa

11:30 - 13:00 Gwers / Lesson

13:00 - 14:00 Cinio / Lunch

14:00 - 15:30 Gwers / Lesson

15:30 - 16:00 Paned / Cuppa

16:00 - 17:00 Gwers / Lesson

Swper / Evening meal

Bydd swper yn cael ei weini yn y Neuadd neu'r Caffi.
Rhowch wybod i ni am unrhyw anghenion dietegol ymlaen llaw.

The evening meal is served in the Hall or Café.
Please inform us of any dietary requirements in advance.

Adloniant / Entertainment

Rydym yn trefnu adloniant ar gyfer nos Fawrth. Bydd yn cael ei gynnal yn y Neuadd, y Caffi neu'r Capel. Byddwch yn derbyn mwy o wybodaeth gan eich tiwtor.

Entertainment is arranged for Tuesday night, which will take place in the Hall, the Café, or the Chapel. You will receive more information from your tutor.

19:30



DYDD MERCHER / WEDNESDAY

AMSERLEN Y CWRS - COURSE TIMETABLE

08:30 Brecwast / Breakfast

09:30-11:00 Gwers / Lesson

11:00 - 11:30 Paned / Cuppa

11:30 - 13:00 Gwers / Lesson

13:00 - 14:00 Cinio / Lunch

14:00 - **17:30** **Ymweliad / Visit**
Byddwch yn ymweld ag atyniad lleol brynhawn Mercher ac yn cael cyfle i ddefnyddio eich Cymraeg. Bydd bws yn cael ei ddarparu. Dewch â dillad ac esgidiau addas yn seiliedig ar y tymor.

You will visit a local attraction on Wednesday afternoon and have the opportunity to use your Welsh. A bus will be provided. Please bring suitable clothing and shoes based on the season.

18:00 **Swper / Evening meal**
Bydd swper yn cael ei weini yn y Neuadd neu'r Caffi.
Rhowch wybod i ni am unrhyw anghenion dietegol ymlaen llaw.

The evening meal is served in the Hall or Café.
Please inform us of any dietary requirements in advance.

Nid oes unrhyw weithgareddau ffurfiol yn cael eu trefnu ar gyfer nos Fercher ond mae croeso i chi ymlacio yn Y Plas gyda'ch cyd-fyfyrwyr neu fynd i fyny'r allt i Dafarn y Fic.

There are no formal activities scheduled for Wednesday evening, but feel free to relax in The Plas with your fellow students or head uphill to Tafarn y Fic (Pub).



DYDD IAU / THURSDAY

AMSERLEN Y CWRS - COURSE TIMETABLE

08:30 Brecwast / Breakfast

09:30-11:00 Gwers / Lesson

11:00 - 11:30 Paned / Cuppa

11:30 - 13:00 Gwers / Lesson

13:00 - 14:00 Cinio / Lunch

14:00 - 15:30 Gwers / Lesson

15:30 - 16:00 Paned / Cuppa

16:00 - 17:00 Gwers / Lesson

18:00 Swper / Evening meal

Bydd swper yn cael ei weini yn y Neuadd neu'r Caffi.

Rhowch wybod i ni am unrhyw anghenion dietegol ymlaen llaw.

The evening meal is served in the Hall or Café.

Please inform us of any dietary requirements in advance.

Nid oes unrhyw weithgareddau ffurfiol yn cael eu trefnu ar gyfer nos Iau ond mae croeso i chi ymlacio yn Y Plas gyda'ch cyd-fyfyrwyr neu fynd i fyny'r allt i Dafarn y Fic.

There are no formal activities scheduled for Thursday evening, but feel free to relax in The Plas with your fellow students or head uphill to Tafarn y Fic (Pub).



DYDD GWENER / FRIDAY

AMSERLEN Y CWRS - COURSE TIMETABLE

08:30 Brecwast / Breakfast

09:30-11:00 Gwers / Lesson

11:00 - 11:30 Paned / Cuppa

11:30 - 13:00 Gwers / Lesson

**13:00 -
14:00** Cinio a Ffarwelio / Lunch and Goodbyes

LLETY / ACCOMMODATION

Ystafell Wely...

Mae dillad gwely a thywelion wedi'u cynnwys a thegell, sychwr gwallt, siampŵ a sebon. Bydd cyflenwad bychan o de, coffi, siwgr a llefrith hefyd.
Os ydych chi angen mwy o unrhyw eitem, dewch i'r dderbynfa gyda'r daflen ailgyflenwi o'ch ystafell.

Nid oes teledu na radio yn yr ystafelloedd

Mae Wi-Fi am ddim ar draws y safle.
Dyma fanylion y cyswllt Wi-Fi diogel:
Enw: Nant Gwrtheyrn - Dysgwyr
Cyfrinair: DysguNant

Noson ychwanegol...

Os nad ydych wedi gwneud hyn yn ystod y broses gofrestru ac eich bod yn dymuno cyrraedd y Nant y diwrnod cyn eich cwrs, gallwch archebu noson ychwanegol drwy ffonio'r swyddfa ar 01758750334 a dewis opsiwn 1 ar gyfer "Archebion Derbynfa a Llety". Y gost ar gyfer noson ychwanegol yw £70, sy'n cynnwys gwely a brecwast. **Gwnewch yn siŵr eich bod yn archebu eich lle erbyn y dydd Mercher cyn eich cwrs.**

Gadael yr ystafell...

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael eich llety erbyn **9:30** fore Gwener. Cofiwch adael eich allwedd yn y drws. Gofynnwn yn garedig i chi wneud pob ymdrech i adael yr ystafell yn yr un cyflwr ag y daethoch o hyd iddi. Diolch!

Room...

Bedding and towels are included, along with a kettle, hairdryer, shampoo and soap. A small supply of tea, coffee, sugar, and milk is also provided. **If you need to replenish any items, please come to the reception with the replenishment sheet from your room.**

The rooms do not have a television or a radio.

Free Wi-Fi is available throughout the site.

The details of the secure Wi-Fi are:

Name: Nant Gwrtheyrn - Dysgwyr

Password: DysguNant

Additional night...

If you haven't done so during registration and wish to arrive at the Nant the day before your course, you can book an additional night by calling the office at 01758750334 and selecting option 1 for "Reception and Accommodation Bookings." The cost for an extra night is £70, which includes bed and breakfast. **Please ensure you book by the Wednesday before your course.**

Departure...

Please make sure to vacate your accommodation by **9:30** on Friday morning. Remember to leave your key in the door. We kindly ask that you make every effort to leave the room in the same condition as you found it. Thank you!



CYFLEUSTERAU / FACILITIES

GWYBODAETH BWYSIG - IMPORTANT INFORMATION

Bwyd...

Bydd eich prydau yn cael eu darparu yn ystod cyfnod y cwrs. Os oes **gennych unrhyw anghenion dietegol arbennig, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.** Gofynnwn yn garedig eich bod chi'n mynd i frecwast, cinio a swper ar amser. Mae'r bwyd ar ei orau pan mae'n cael ei weini'n ffres, yn boeth ac ar amser.

Dosbarth...

Mae dosbarthiadau yn cael eu cynnal yn y 'Sgubor, y Plas, neu Ystafell Rhys. Byddwch yn cael gwybod ym mha ystafell ddosbarth y byddwch fore Llun. Mae'r holl ardaloedd addysgu yn hygyrch, ac mae lifft ar gael er mwyn mynd i'r ystafell ddysgu sydd i fyny'r grisiau yn y Plas.

Plas...

Y cod i fynd i mewn i'r Plas yw C1567X. Mae croeso i chi ymlacio yn y Plas gyda'r nos. Mae oergell a microdon yn y Plas.

Lleol...

Mae siop gymunedol yn y pentref agosaf, Llithfaen. Mae gan y pentref hefyd dafarn gymunedol, Y Fic, sydd ar agor o nos Fercher i nos Sul. Nid ydynt yn gweini bwyd.

Siopau...

Mae'r orsaf betrol agosaf yn Y Ffôr neu Morfa Nefyn. Yn Nefyn (5 milltir o'r Nant), gallwch ddod o hyd i siopau, fferyllfa a thafarndai. Mae llawer o'r siopau ar agor bob dydd rhwng 8:00 YB a 21:00 YH. Mae gan y dref agosaf, Pwllheli (8 milltir o'r Nant), amrywiaeth o siopau sydd ar agor yn hwyr, yn ogystal â dwy orsaf betrol.

Food...

Your meals will be provided during the course period. **If you have any special dietary requirements, please let us know as soon as possible.** Please make sure you go to breakfast, lunch, and dinner at the scheduled times. The food is at its best when served fresh, hot and on time.

Class...

Classes are held in the 'Sgubor, the Plas, or Ystafell Rhys. You will be informed in which classroom you will be on Monday morning. All teaching areas are accessible, and there is a lift available to reach the upstairs classroom in the Plas.

Plas...

The code to enter the Plas is C1567X. You are welcome to relax in the Plas during the evenings. There is a fridge and microwave in the Plas.

Local...

There is a community-run shop in the nearest village, Llithfaen. The village also has a community-led pub, Y Fic, which is open from Wednesday to Sunday evenings. They don't serve food.

Shops...

The nearest petrol station is located in Y Ffôr or Morfa Nefyn. In Nefyn (5 miles from the Nant), you can find shops, a chemist, and pubs. Many of the grocery stores are open daily from 8:00 AM to 21:00 PM. The nearest town, Pwllheli (8 miles away), has a variety of shops that remain open late, as well as two petrol stations.

Signal Ffôn...

Mae signal ffôn symudol ar gael mewn rhai ardaloedd yn Nant Gwrtheyrn, ond mae'r signal yn wan ar y cyfan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn diffodd 'Data Roaming' gan ei bod yn bosibl codi signal o Iwerddon. Mae galwadau drwy Wi-Fi ar gael; os ydych angen cymorth gyda hyn, mae croeso i chi ofyn i aelod o staff.

Mae'r dderbynfa ar agor drwy'r nos, sy'n caniatáu i chi ddefnyddio'r ffôn rhag ofn y bydd argyfwng. Mae gofalwr nos yn bresennol ar y safle rhwng 5:00 YH ac 8:00 YB. Gallwch gysylltu â'r gofalwr trwy 'walkie-talkie' sydd ar gael yn y dderbynfa. Os nad yw'r gofalwr ar y safle, bydd rhif ffôn symudol ar gael yn y dderbynfa.

Os bydd rhywun yn dymuno cysylltu â chi yn ystod eich arhosiad, gellir gadael neges yn y swyddfa drwy ffonio 01758 750334.

[Ni chaniateir ysmegu yn unrhyw un o adeiladau'r Nant gan gynnwys y llety.](#)

Mae bocsys cymorth cyntaf ar gael yn y Swyddfa, Caffi Meinir, Plas, ac yn y Capel.

Mae diffibriliwr ar y safle, sydd wedi'i leoli ar y wal o dan y Capel.

Os bydd tân, dylai pawb ymgynnull yng Nghae Canol, sef y cae sydd yng nghanol y pentref, rhwng y ddau deras.

Mewn argyfwng, ffoniwch: 999

Am gyngor (heb fod yn argyfwng), ffoniwch:

Heddlu 101

Gwasanaeth Iechyd 111

Polisiâu...

Ar gyfer polisiâu Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn, ewch i'n gwefan neu cliciwch ar y ddolen isod. Bydd copiâu caled ar gael ar y safle hefyd.

[Polisiau Addysg - Nant Gwrtheyrn](#)

Phone Signal...

Mobile phone signal is available in some areas of Nant Gwrtheyrn, but the signal is generally weak. Please ensure you turn off 'Data Roaming,' as it is possible to pick up a signal from Ireland. Wi-Fi calling is available; if you need assistance with this, feel free to ask a member of staff.

The reception is open all night, allowing you to use the phone in case of an emergency. A night caretaker is present on-site from 5:00 PM until 8:00 AM. You can contact the caretaker through a walkie-talkie available at reception. If the caretaker is not on-site, an emergency mobile number will be provided at reception.

If someone wishes to contact you during your stay, a message can be left at the office by calling 01758 750334.

Smoking is prohibited in all buildings of the Centre, including accommodation areas.

First aid boxes are available at the Office, Caffi Meinir, Plas, and in the Chapel.

There is a defibrillator on-site, located on the wall beneath the Chapel.

In the event of a fire, please gather in Cae Canol, which is the field located in the center of the village, between the two terraces.

In an emergency, ring: 999

For advice (non-emergency), ring:

Police 101

NHS 111

Policies...

For Nant Gwrtheyrn Trust's policies, please visit our website or click the link below. Hard copies will also be available on-site.

[Education Policies - Nant Gwrtheyrn](#)



NOFIO YN Y MÔR / SWIMMING IN THE SEA

GWYBODAETH BWYSIG - IMPORTANT INFORMATION

Mae llawer o ddysgwyr yn mwynhau nofio yn y môr yn wythnosol yn y Nant.

Gofynnwn yn garedig i chi fod yn ymwybodol o'r canllawiau diogelwch canlynol:

Dim signal ffôn symudol:

Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd â rhywun gyda chi neu yn rhoi gwybod i rywun am eich cynlluniau a phryd fyddwch yn bwriadu dychwelyd.

Mannau serth:

Byddwch yn ofalus wrth fynd i mewn i'r môr gan ei fod yn gallu mynd yn serth yn sydyn mewn rhai ardaloedd. Ewch i mewn i'r dŵr yn raddol.

Gweddillion Hen Chwarel:

Mae'r ganolfan wedi ei lleoli ar hen safle chwarelyddol. Gall y traeth a'r môr gynnwys olion o'r chwarel, gan gynnwys creigiau miniog.

Nid yw Nant Gwrtheyrn yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw niwed a allai ddigwydd i unigolion sy'n dewis nofio yn y môr.

Many learners enjoy swimming in the sea on a weekly basis at the Nant.

We kindly ask you to be aware of the following safety guidelines:

No mobile phone signal:

Please ensure that you take someone with you or always inform someone of your plans and estimated return time.

Steep areas:

Please be cautious when entering the sea as it goes steep quickly in some areas. Enter the water gradually.

Old Quarry Remains:

The centre is located on an old quarry site. The beach and the sea may contain remnants of the quarry, including sharp rocks.

Nant Gwrtheyrn does not take responsible for any harm that may come to individuals who choose to swim in the sea.



CAMAU NESAF / NEXT STEPS

Archebu llety ar gyfer y nos Sul (os nad ydych wedi gwneud yn barod) /
Book accommodation for the Sunday evening before the course (if you have not
already done so)

Rhoi gwybod i ni am unrhyw anghenion arbennig /
Inform us of any special needs

Cysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiwn /
Please contact us if you have any questions

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i Nant Gwrtheyrn!
We look forward to welcoming you to Nant Gwrtheyrn